Ysgol Dyffryn Conwy
ysgoldyffrynconwy.org

Bwletin i Rieni

Ionawr 2015

Bulletin for Parents

January 2015

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Hoffwn gychwyn y bwletin drwy ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi ac i ddiolch i chi fel rhieni a phartneriaid yr ysgol am eich cefnogaeth dros y tymor prysur diwethaf, fy nhymor cyntaf fel Pennaeth. Edrychaf ymlaen at gydweithio efo chi yn ystod 2015 gan weithio i sicrhau y cyfleoedd a'r deilliannau gorau ar gyfer disgyblion a chymuned Ysgol Dyffryn Conwy. Mae heriau o'n blaenau wrth i ni baratoi ar gyfer cwricwlwm newydd ym mhob cyfnod allweddol o Fedi 2015 ymlaen.

Mae cylchgrawn ***Y Bont 2014*** bellach wedi ei gyfieithu yn llawn a bydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan iawn – unwaith eto bydd mewn lliw ac yn gyfangwbwl ddwyieithog.

Yn y bwletin hwn cewch:

- Ddiweddariad am lwyddiannau disgyblion yr ysgol;
- Ddiweddariad am weithgareddau allgyrsiol ar gyfer tymor y Gwanwyn ac amserlen gweithgareddau allgyrsiol chwaraeon;
- Ddiweddariad am newidiadau staffio; a
- Ddiweddariad am ddyddiadau ar gyfer Tymor y Gwanwyn.

Amgaeaf hefyd wybodaeth i chi gan Awdurdod Conwy am drefniadau cymryd gwyliau yn ystod tymor ysgol, ac am reolau newydd ar gyfer monitro presenoldeb gan gynnwys gallu'r Awdurdod Lleol i gyflwyno rhybudd cosb am absenoldebau. Mae'r dogfennau hefyd ar gael ar safwe'r ysgol.

Yn gywir, Miss Elan Davies, Pennaeth.

Dear Parents/Guardians,

I would like to begin the bulletin by wishing you a very Happy New Year and thanking you as parents and partners of the school for your support over the last busy term, my first term as Head teacher. I look forward to working with you in 2015 in order to ensure the best opportunities and outcomes for the pupils and community of Ysgol Dyffryn Conwy. There are challenges ahead as we prepare for a new curriculum in every key stage from September 2015.

The Bont 2014 magazine has now been fully translated and will be published soon – once again in colour and fully bilingual.

In this bulletin we include:

- An update of pupil success stories;
- An update of extracurricular activities for the Spring Term and a copy of the extracurricular sporting activities timetable;
- An update on staffing changes; and
- Planned activities and key dates for the Spring Term.

We also include important information from Conwy Authority about taking holidays within term time and new guidance on attendance including fixed penalty notices for absences. Copies are also available on the school's website.

Yours sincerely, Miss Elan Davies, Head teacher.

Llwyddiannau / Successes: Tachwedd-Rhagfyr

RYLA: Llongyfarchiadau i **John Brereton ac Alannah Russell**, blwyddyn 12 a wahoddwyd i giniawa efo Clwb Rotary Dyffryn Conwy. Bu'r ddau yn adrodd i'r Rotary am eu profiadau byth gofiadwy yn Arthog ym Mhen Llyn ar gwrs arweinyddiaeth RYLA a noddwyd gan y clwb. Roedd yn amlwg fod y ddau wedi elwa yn fawr o'r profiad, a'u cyflwyniadau hyderus yn dyst i'r datblygiad yn eu sgiliau arwain, cyflwyno a chydweithio. / *Congratulations to John Brereton and Alannah Russell, year 12 who were invited to dine with the Dyffryn Conwy rotary Club. Both entertained their audience with tales of their memorable trip to Arthog in the Llyn Peninsula as part of the RYLA leadership course sponsored by the Rotary. It was clearly a life changing experience and their confident presentations were evidence of the development they had gained from the experience.*

Llongyfarchiadau i **Zafer Ozkan** 11T ar ennill 'Gwobr Richard Williams' yng Ngholeg Llandrillo. Mae Zafer yn dilyn cwrs Adeiladwaith yn y Coleg ac wedi dod i'r brig yn erbyn 100 disgybl arall sydd yn dilyn y cwrs sydd yn gydnabyddiaeth o'i waith ardderchog gyda theils. / *Congratulations to Zafer Ozkan 11T for winning the coveted 'Richard Williams Award' in Llandrillo Collage for 'Best Pupil'. Zafer is studying the Building course at the college and has beaten the 100 other pupils studying this course to win the award. The award recognises his excellent work in tiling.*

Gwaith Elusenol / Charity Work:

Llongyfarchiadau i flwyddyn 7, 8 a 9 yn eu ymgyrch bocs Plant Nadolig. Llongyfarchiadau hefyd i Dîm COPE blwyddyn 11 ar lwyddo i gasglu dros £250 ar gyfer elusen Cancer Research efo diwrnod siwmper Nadolig. / Congratulations to years 7, 8 and 9 for their successful Christmas Child appeal. Congratulations aslo to the year 11 COPE team for collecting over £250 for Cancer Research by hosting the Christmas Jumper Day.

Sioe Gerdd / Musical – 'Peter Pan':

Daeth y tymor i ben gyda perfformiadau anhygoel o Sioe Gerdd 'Peter Pan'. Roedd y neuadd yn llawn ar gyfer yr holl berfformiadau, o ymweliad blwyddyn 5 a 6 y dalgylch ar y dydd Llun at y noson olaf ragorol! Perfformiadau proffesiynol a hyderus gan gast ifanc a brwdfrydig. Mawr ddiolch iddynt am eu holl waith yn paratoi, i'r Adran Gerdd a Drama am eu hyfforddi, arwain a'u cymhell; i chi fel rhieni a partneriaid am eu cefnogi, ac i staff a disgyblion yr ysgol fu hefyd yn cefnogi yn ystod yr wythnos. Roedd yn brofiad gwych i'r disgyblion ac yn glod mawr i'r ysgol. Cewch bori drwy luniau o'r perfformiadau ar safwe yr ysgol.

The term ended on a very high note with the sell out performance of the musical 'Peter Pan'. The school hall was alive with the sound of the superb and professional cast as they performed to sell out audiences from year 5 and 6 on the Monday to the last evening. It was a delight to witness such talent and enthusiasm! Sincere thanks go to the cast for all their hours of practice; to the Music and Drama department for their excellent guidance and training; to you as parents and partners for your support, and to the staff and pupils who also supported over the week. It was an excellent experience for all those pupils involved and a huge credit to the school. Pictures of the performances can be found on the school website.

Dyddiadau Allweddol / Key Dates: Tymor y Gwanwyn

NOSWEITHIAU RHIENI / PARENTS' EVENINGS: Tymor y Gwanwyn / Spring Term

Noson Rhieni Blwyddyn 11 / Year 11 Parents' Evening: 20/1/1, 4.15 – 6.15pm

Noson Agored y 6ed Dosbarth / 6th Form Open Evening: 27/1/15, 5.30 – 8pm

Noson Opsiynau Blwyddyn 9 / Year 9 Options Evening: 10/3/15, 3.45 - 7.00pm

Noson Rhieni Blwyddyn 8 / Year 8 Parents' Evening: 24/3/15, 4.15 – 6.15pm

(Ceir gwybodaeth am ein holl ddyddiadau asesu 2014/15 ar y safwe 'Rhieni'. / A full update of all assessement dates for 2014/15 can be found on the 'Parents' section of our Website:

Blaenoriaethau'r ysgol / School priorities 2015:

Mae ein blaenoriaethau a'n cynllun gwella bellach ar safwe Rhieni yr ysgol. Maent yn cynnwys argymhellion arolwg Estyn sef i barhau i godi safonau mewn Saesneg, gwella presenoldeb, parhau i ddatblygu arweinwyr a parhau i sicrhau cysondeb mewn asesu. Mae ymateb i ddatblygiadau TGCh ac i her y cwricwlwm newydd a thoriadau cyllidol hefyd yn flaenoriaethau gennym. Mae'r cynllun gwella yn cael ei weithredu bellach a byddwn yn arfarnu ei effaith fel mae'r flwyddyn yn mynd heibio er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar ein siwrne at ragoriaeth. Mae canlyniadau arholiadau mathemateg Tachwedd 2015 ac ymdrech ein disgyblion hŷn yn eu arholiadau allanol a mewnol dros y pythefnos cyntaf yma o 2015 yn bendant yn argoeli yn dda! **Gyda'n gilydd cyrhaeddwn ein potensial!**

Our priorities and improvement plan for 2014/15 are now on the Parents section of our website. Our priorities include the recommendations from Estyn last March, to continue to raise standards in English, improve our attendance, continue to develop our leaders and to continue work to ensure consistency in assessment. Responding to developments and challenges in ICT, the wider curriculum and budget challenges are also priorities within the plan. The plan is now in the process of being implemented and we will evaluate its impact as the year progresses, in order to ensure that we continue on our path to excellence. Indeed the results from the November GCSE maths examinations and the efforts of our older pupils in their external and internal examinations over this initial fortnight show that progress continues to be made! ***Together we will reach our potential!***

Chwaraeon / Sport:

Llwyddiannau mewn Cystadlaethau Chwaraeon / School Fixtures: Hydref/Autumn 2014

Tim / Team	Llwyddiant / Success
Tîm Pêl-droed Bechgyn Dan 12 / U12s Boys' Football Team	v Ysgol Eirias= Colli/ Lost 1-0
Tîm Pêl-droed Bechgyn Dan 15 / U15s Boys' Football Team	v Ysgol Tryfan= Curo/Won 2-1 v Ysgol Emrys ap Iwan= Curo/ Won 2-1 v Ysgol Hawarden= Cyfartal/ Draw 2-2 (colli ar giciau cosb 3-1/ lost on penalties 3-1)
Tîm Pêl-droed Bechgyn Dan 18 / U18s Boys' Football Team	V Ysgol y Creuddyn= Curo/ Lost 4-1
Tîm rygbi Bechgyn Dan 14 / U14s Rugby Team	V Ysgol Eirias= Colli/ Lost 50-17
Tîm rygbi Bechgyn Dan 16 / U16s Rugby Team	V Ysgol Llangefni= Curo/ Won 33-10

O ganlyniad mae'r timau canlynol yn mynd ymlaen i'r Cystadlaethau Cenedlaethol/ The following teams have qualified for the National Competitions

- Tîm Pêl-droed Merched dan 15 / U15s Girls' football
- Tîm Pêl-droed bechgyn dan 18 / U18s Boys' football
- Tîm Rygbi dan 16 / U16s Boys Rugby
- Tîm Pêl-droed bechgyn dan 16 / U16 Boys' Football

Tim Nofio yr Urdd / Urdd Swimming Team:

Llongyfarchiadau mawr i Russell Wingfield am ennill yr ail wobr am nofio cefn a 3ydd am nofio rhydd yng nghystadleuaeth Nofio Urdd Conwy yn Rydal. Congratulations to Russell Wingfield for winning 2nd place in the back stroke and 3rd in the free style event.

Clwb Marchogaeth Ysgol Dyffryn Conwy Equestrian Team:

Rydym yn hynod falch o lwyddiannau y tîm yn ystod y tymor diwethaf. Buont yn brysur iawn yn casglu arian ar gyfer mynd i'r gystadleuaeth cenedlaethol lle bu i'r tîm ddod yn 5ed o 22 sydd yn dipyn o gamp! Roedd Harri Williams, Tonisha Cornford, Annie Monks ac Elain Roberts yn dipyn o 'selebs' hefyd yn dilyn eu gwaith o hybu ar y radio ac ar y teledu cyn y cystadlu. Rydym yn disgwyl pethau mawr gan y clwb Marchogaeth a'u holl aelodau yn y dyfodol.

We are extremely pleased with the success of our equestrian team over the last term. Members of the team were busy collecting money and sponsorship for the national competition where they came 5th out of 22, quite an achievement at national level! Harri Williams, Tonisha Cornford, Annie Monks and Elain Roberts were also local celebrities following their promotional work on the radio and on the national news before their big comp! We expect big things from the club and its members for the future.

Gweithgareddau Allgyrsiol / Extracurricular Activities:

Penodwyd Mr Danial Meredydd fel Swyddog hybu gweithgareddau chwaraeon yr ysgol. Mae wedi bod yn brysur yn llunio rhaglen o weithgareddau amrywiol ar gyfer y flwyddyn newydd mewn partneriaeth â'r Adran Addysg Gorfforol, y Ganolfan Hamdden a Chlybiau lleol. Dyma rai o'r gweithgareddau fydd yn digwydd yn ystod tymor y gwanwyn / *Mr Danial Meredydd has recently been appointed as our extracurricular sports co-ordinator. He has been busy putting together a programme of actitivies for the*

new year in partnership with the PE Department, Leisure Centre and local clubs. Here are some of the activities that will be taking place in the spring term:

- Sboncen
- Rygbi Merched (mewn partneriaeth a Nant Conwy)
- Pêl-droed Merched
- Clwb Dringo
- Trampolinio
- Sgio
- Hoci
- Rygbi bechgyn
- Pêl-droed Bechgyn
- Pêl Fasged mewn cadeiriau olwyn
- Clwb Athletau

Amgaeir copi llawn ynghlwm â'r bwletin yma. */A copy of the full timetable for this half term is enclosed in this bulletin.*

Clybiau'r Urdd a'r ysgol / Urdd and School clubs:

Mae clybiau eraill hefyd yn mynd o nerth i nerth dan arweiniad Miss Elliw Baines Roberts, Swyddog Ieuenctid yr ysgol mewn Partneriaeth â'r Urdd. Maent yn cynnwys / *Our other clubs run by Miss Ellis Baines Roberts, the School's Youth Officer in partnership with the Urdd continue to go from strength to strength as well. These include:*

- Clwb ping pong / Ping pong club
- Clwb paentio wynebau / Face painting club
- Clwb gemwaith / Jewellery Making Club
- Clwb Ieuenctid yr Urdd a Chlwb Pŵl Llanrwst / Llanrwst Urdd Youth Club and Pool Club (wedi ysgol / after school)

Bydd y rhain yn ychwanegol i'r Clwb Drama ôl ysgol, y clybiau Celf a Clwb Fflim amser cinio fydd yn parhau yn y flwyddyn newydd. / **These, along with the after school Drama Club and lunchtime Art and Film Clubs will continue in the new year.**

Edrychwn ymlaen hefyd at / We also look forward to:

- Eisteddfod yr Ysgol 27/2/15 / School Eisteddfod 27/2/15
- Ffair Gyrfaoedd / Careers Fair 27/1/15
- Diwrnod cyfweliadau a pharatoi at waith a choleg/addysg ôl-16 blwyddyn 11 / year 11 interviews and preparation for college and post-16 education 27/2/15
- Cyhoeddiad **Y Bont 2014,** Chwefror 2015 / Launch of The Bont magazine, February 2015.

Gwisg Ysgol / School Uniform:

Diolch unwaith eto i chi am eich cefnogaeth i wella safon gwisg ein disgyblion. Mae'r safon wedi gwella ar ddechrau'r tymor a bron pob disgybl mewn gwisg briodol. Fel rhan o waith y Cyngor Ysgol yn ystod y tymor bydd y disgyblion hŷn yn trafod newidiadau posibl i wisg ysgol gan gychwyn efo gwisg y 6ed dosbarth. Byddant yn adrodd yn ôl i'r Corff Llywodraethol ar ddiwedd y tymor. Mae manylion y wisg gyfredol ar safwe yr ysgol ac ym mhrosbectws diweddaraf yr ysgol (2015/16). / *Thank you once again for your support in ensuring that pupils come to school in the appropriate uniform. The standard of uniform has improved again at the beginning of this term. As part of the School Council's remit this terrm, the Governors have asked them to discuss the possibility of changing the school uniform, beginning with discussing the 6th form's uniform. They will be reporting back to the Governing Body at the end of this term. The current school uniform can be found in the School Prospectus on the website (2015/16).*

Newidiadau Staffio / Staffing Changes:

Mae rhai newidiadau staffio ar lefel uwch reolaeth a rheolaeth ganol yr ysgol ar gyfer y flwyddyn newydd – dyma grynodeb ohonynt. / There are some changes at senior leadership level and middle leadership level for the new year – here is a summary of them:

- Mrs Catrin Jones, Pennaeth Cynnydd Blwyddyn 8 / Year 8 Progress Leader (dros gyfnod mamolaeth Mrs Ffion Jones / maternity leave);

- Mae gennym aelodau newydd o'r Uwch Dim Rheoli fydd yn arwain ar ochr asesu, ABCh, Llythrennedd a hyfforddiant staff dros y ddau dymor nesaf. Maent eisoes wedi cychwyn ar eu gwaith ac wedi ein cynorthwyo i symud ymlaen mewn nifer o agweddau. Edrychwn ymlaen at weld eu swyddi yn datblygu ymhellach o'r flwyddyn newydd. / *We have appointed new members of the Senior Management Team who will be leading on assessment, PSHE, Literacy and Staff Development over the next two terms. They have already begun on this work and are already helping the school to make progress in these areas. We look forward to seeing their roles developing further in the new year.*
  Aelodau'r Tim newydd yw / The new team are: Mr Roger Beech, Mr Jason Turner, Mr Dafydd Gwyn, Miss Llio Japheth, Mrs Gwenno Jarvis, Miss Hannah Jones.

- Mi fydd **Mrs Delyth Gray, Pennaeth Cynorthwyol** hefyd yn ein gadael ar ddiwedd yr hanner tymor i fynd ar secondiad blwyddyn i Estyn. Mae hyn yn glod mawr i Mrs Gray ac i'r ysgol a dymunwn yn dda iawn iddi dros ei secondiad. Bydd **Mrs Kelly Morgan** yn cymryd prif elfennau swydd Mrs Gray o ganol mis Chwefror gan weithredu fel Pennaeth Cynorthwyol, Cydgysylltydd ADY, Swyddog Diogelu Plant a Phennaeth y Tîm Bugeiliol yn ystod secondiad Mrs Gray. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd. / ***Mrs Delyth Gray**, Assistant Head will be beginning a new role, seconded to Estyn for a year from next half term. This is an excellent opportunity for Mrs Gray and will be of great benefit to the school. We wish her well in her new post. Over the period of her secondment, **Mrs Kelly Morgan** will be undertaking most of Mrs*

Gray's role as Assistant Head, Additional Needs Co-ordinator, Safeguarding Officer and Head of the pastoral and inclusion team. We wish her well in her new post.

- Yn ychwanegol i'r newidiadau uchod, mi fydd Mrs Branwen McBride yn cychwyn cyfrifoldeb newydd am ddisgyblion mwy abl a thalentog yr ysgol a Mr Roger Beech yn derbyn cyfrifoldeb am raglenni Amgen a chwricwlwm 14-16. Bydd y ddau hefyd yn cydweithio i weithredu ein cynllun gwella presenoldeb ac i sicrhau buddiannau ein disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim fel rhan o'n cynllun grant amddifadedd. */ In addition to these developments Mrs Branwen McBride begins a new role as More Able and Talented Co-ordinator and Mr Roger Beech as 14-16 Co-ordinator. Both will also be working together on our priority to improve attendance and on supporting pupils eligible for free school meals as part of our deprivation grant work.*

<u>Yn olaf / Finally:</u>

- Diolch yn fawr iawn i'r cwmniau a mudiadau lleol sydd yn cefnogi gwaith yr ysgol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Oes oes dymuniad gennych i ddatblygu partneriaeth newydd â'r ysgol neu i ehangu ar bartneriaeth sydd eisoes yn bodoli, cysylltwch â'r ysgol. Rydym yn parhau i edrych am noddwyr i wahanol weithgareddau yr ysgol fel cylchgrawn y Bont a'n Seremoni Gwobrwyo. / *Thank your to all the local businesses and agencies who support the school's work in many different ways. If you would like to develop a new partnership with us or to further develop an existing partnership, please contact the school. We continue to look for sponsorships for school developments including the Bont magazine and our Awards Ceremony.*

- Rydym hefyd yn awyddus i barhau i adnewyddu a datblygu ein safwe a'r dulliau yr ydym yn cyfathrebu efo chi fel rhieni a phartneriaid yr ysgol. Os oes unrhyw argymhellion gennych – cysylltwch â'r ysgol. */ We are also keen to continue to update and develop our website and the ways in which we communicate with you as parents and partners of the school. If you have any ideas – please contact the school.*

Os oes gennych unrhyw manylion cyswllt newydd e.e. rhif mobile newydd, gofynnwn i chi gysylltu efo'r ysgol er mwyn i ni sicrhau bod negeseuon allweddol yn eich cyrraedd. / *If you have any changes to your contact details e.g. change in mobile number, please could you contact the school to update and make sure that we can send you any important messages or alerts.*

Yn gywir / Yours sincerely,

Miss Elan Davies, Pennaeth, Ionawr 2015 /January 2015.